National Numeracy Day

Founding Supporter: KPMG




Mae'r **Big Number Natter** yn sgwrs genedlaethol sy'n digwydd adeg y National Numeracy Day. Mae ei bwrpas yn syml: i gael pobl i siarad am rifau mewn ffordd sy'n teimlo'n agored, yn gefnogol ac yn ddynol.

**Nid gwers fathemateg mohoni.**
**Ni chaiff neb ei brofi.**
**Ni ofynnir i neb ddatrys symiau.**

Yn hytrach, mae'n ymwneud â rhannu profiadau bywyd go iawn o rifau yn y gwaith, gartref ac mewn bywyd bob dydd.

Yn achos rhai pobl mae niferoedd yn golygu hyder a chyfle. I eraill, maent yn golygu gorbryder a gafodd ei ffurfio gan brofiadau'r gorffennol yn yr ysgol neu wedi hynny. Mae llawer o oedolion, yn dawel bach, yn osgoi sefyllfaoedd sy'n cynnwys rhifau, er bod rhifedd yn effeithio ar bopeth o gyllidebu i filiau, o waith i wybodaeth iechyd.

Mae'r Big Number Natter yn creu lle i gydnabod y profiadau hynny.

## Pam y mae'n bwysig

**Nid yw rhifedd yn ymwneud â chyfrifo'n unig; mae'n ymwneud â hyder.**

Pan fydd pobl yn teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad am rifau, maent yn fwy tebygol o:

- Ofyn cwestiynau
- Chwilio am gymorth
- Ymgysylltu â gwybodaeth
- Gwneud penderfyniadau gwybodus
- Teimlo'n fwy hyderus yn y gwaith ac mewn bywyd bob dydd

Gall tawelwch atgyfnerthu stigma. Gall sgwrs ei leihau. Trwy normaleiddio teimladau gwahanol am fathemateg, yn rhai cadarnhaol, negyddol neu gymysgedd o'r ddau, mae'r Big Number Natter yn helpu i ddisodli cywilydd â dealltwriaeth.

## Beth yw Number Natter?

**Ystyr Number Natter yw sgwrs dan arweiniad am rifau a hyder.**

Gall ddigwydd mewn gweithle, ysgol, grŵp cymunedol, neu o amgylch bwrdd y gegin. Gall fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Gall clonc bara am unrhyw hyd o **5 i 30 munud** – chi sydd i benderfynu.

Gallai cyfranogwyr siarad am:

- Eu hatgofion cynharaf o fathemateg
- Adeg pan oedd rhifau'n teimlo'n rymusol
- Ennyd pan oedd rhifau'n teimlo'n frawychus
- Y modd y mae rhifau'n ymddangos yn eu bywyd bob dydd
- Yr hyn a fyddai'n eu helpu i deimlo'n fwy hyderus

Nid oes yna atebion cywir nac anghywir. Mae pob profiad yn ddilys.

Dyma'r cynhwysion pwysicaf:

- Cwestiynau agored
- Gwrando'n astud
- Amynedd a charedigrwydd
- Neges eglur nad yw hyn yn ymwneud â bod yn “dda mewn mathemateg”

## Sut i ddechrau un

**Mae dechrau Big Number Natter yn syml.**

Dewch â phobl ynghyd wyneb yn wyneb neu ar-lein a chyflwynwch y syniad eich bod am gael sgwrs agored am rifau a hyder. Tawelwch feddwl pawb na fydd yna unrhyw fathemateg yn gysylltiedig.

Dechreuwch gydag un cwestiwn, megis:

- “Sut yr ydych yn teimlo pan glywch y gair mathemateg?”
- “Ble y mae rhifau’n ymddangos yn ystod eich diwrnod?”
- “Beth yw un rhif sy'n ystyrlon i chi?”

Gadewch i'r sgwrs lifo o'r fan hon.

Gall hyd yn oed trafodaeth fer newid safbwyntiau. Mae pobl yn aml yn synnu o ganfod nad ydynt yn unigryw o ran y ffordd y maent yn teimlo.